

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar gyfer y Bil Cymwysterau Proffesiynol

Chwefror 2022

Cyflwyniad

1. Gosododd Llywodraeth Cymru [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol \(Memorandwm\)](#) (PDF 155KB) ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol gerbron y Senedd ar 17 Gorffennaf 2021. Cafodd y Memorandwm gwreiddiol hwnnw ei drafod gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn ei gyfarfod ar **16 Medi 2021** a gosododd ei **adroddiad** (PDF 120KB) ar 28 Medi 2021. Trafodwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Hydref 2021 ac chafodd ei wrthod.
2. Yna, cafodd y [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2](#) [<https://senedd.cymru/media/df0nmuws/slcm-ld14720-w.pdf>](https://senedd.cymru/media/df0nmuws/slcm-ld14720-w.pdf)) (Memorandwm Atodol) (PDF 130KB), sy'n destun yr adroddiad hwn, ei osod ar 6 Rhagfyr 2021. Cyfeiriodd y [Pwyllgor Busnes](#) [<https://senedd.cymru/pwyllgorau/y-pwyllgor-busnes/>](https://senedd.cymru/pwyllgorau/y-pwyllgor-busnes/) y Memorandwm Atodol at [Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig](#) [<https://senedd.cymru/pwyllgorau/pwyllgor-yr-economi-masnach-a-materion-gwledig/>](https://senedd.cymru/pwyllgorau/pwyllgor-yr-economi-masnach-a-materion-gwledig/) a'r 'Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad' [<https://senedd.cymru/pwyllgorau/y-pwyllgor-deddfwriaeth-cyfiawnder-a-r-cyfansoddiad/>](https://senedd.cymru/pwyllgorau/y-pwyllgor-deddfwriaeth-cyfiawnder-a-r-cyfansoddiad/) ar 7 Rhagfyr 2021, gyda **dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 10 Chwefror 2022** [<https://senedd.cymru/media/gghbigej/cr-ld14753-w.pdf>](https://senedd.cymru/media/gghbigej/cr-ld14753-w.pdf) (PDF 39.5KB).

Cefndir

3. Cyflwynwyd y Bil Cymwysterau Proffesiynol yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Mai 2021. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Byddai darpariaethau'r Bil yn dod â



system dros dro'r DU ar ôl Brexit i gydnabod cymwysterau proffesiynol i ben. Roedd y trefniadau dros dro hynny'n deillio o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir.

4. Mae'r Bil yn sefydlu fframwaith newydd i'r DU i gydnabod cymwysterau a phrofiad proffesiynol unigolion sydd wedi cymhwyso mewn gwledydd eraill. Mae hyn yn eu galluogi i weithio yn y DU heb orfod ailgymhwyso ac mae'n lleihau'r prosesau gweinyddol sydd ynghlwm wrth hynny. Mae'r Bil hefyd yn cymryd camau i ddiwygio arferion rheoleiddwyr. Mae'r Bil yn berthnasol i tua 160 o broffesiynau a reoleiddir yn y DU ar gyfer dros 50 o reoleiddwyr: mae'r enghreifftiau'n cynnwys nyrsys, meddygon, deintyddion, milfeddygon, athrawon a gweithwyr cymdeithasol.

5. Ceir trosolwg o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm cynharach. Dywedodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwnnw y cynigir y bydd y fframwaith newydd yn:

"... pennu disgwyliadau lefel uchel y bydd rheoleiddwyr yn cadw ymreolaeth oddi mewn iddynt i weithio er budd eu proffesiynau a'u gweinyddiaethau datganoledig" ac y bydd "yn sicrhau bod gan Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig a'r rheoleiddwyr yr adnoddau i roi llwybrau cydnabod ar waith a fydd yn bodloni gofynion proffesiynau unigol mewn gwahanol rannau o'r DU. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i ddenu talent hynod fedrus o bob cwr o'r byd i ymarfer yn y DU a cheisio sefydlu trefniadau cyfatebol â chymheiriaid o wledydd eraill."

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd - pryderon o ran polisi

6. Nododd adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm gwreiddiol ystod eang o bryderon polisi Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'r Bil hwn "sy'n ymwneud â chwmpas, cymesuredd, dyblygu a beichiau ychwanegol a osodir ar reoleiddwyr datganoledig."

7. Gofynnodd adroddiad y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth am oblygiadau'r Bil yng Nghymru, gan gynnwys: effaith ar broffesiynau a reoleiddir; y gallu i asesu'r galw am broffesiynau penodol; cwmpas a chymhwyso'r Bil, e.e. i addysg bellach; trafodaethau â Llywodraeth y DU a chyda rheoleiddwyr; a goblygiadau o ran sut mae'r fframwaith yn rhyngweithio â threfniadau eraill ar ôl Brexit, megis Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, y system fewnfudo newydd a chytundebau rhyngwladol yn y dyfodol.

8. Ymatebodd. Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i'r Pwyllgor ar 4 Hydref 2021, ac ysgrifennodd at y Pwyllgor eto ar 6 Rhagfyr 2021 pan osodwyd y Memorandwm Atodol.

9. Mae'r Memorandwm Atodol a gohebiaeth y Gweinidog yn disgrifio ansicrwydd parhaus ynghylch cwmpas y Bil, ac effaith ar reoleiddwyr a phroffesiynau datganoledig. Mae llythyr cynharach y Gweinidog ar 4 Hydref yn tynnu sylw at bryderon a godwyd gan y rheoleiddwyr datganoledig, Cyngor y Gweithlu Addysg a Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n cwestiynu a oes angen y ddeddfwriaeth ac sydd wedi mynegi pryderon ynghylch yr hyn a allai ddigwydd os bydd Llywodraeth y DU yn deddfu mewn meysydd o fewn eu cyfrifoldebau a'u cylchoedd gwaith.

10. O ran yr effaith bosibl ar reoleiddwyr Cymru yn y dyfodol, dywedodd llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor ar 4 Hydref:

"Mae gan Gyngor y Gweithlu Addysg (EWC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (SCW) pwerau sydd wedi ei ddarparu gan Weinidogion Cymru o dan ddeddfwriaethau Cymru er mwyn cydnabod cymwysterau rhyngwladol ac i benderfynu os ydynt yn cyfateb i gymwysterau'r DU, ac i fynd mewn i gytundebau cydnabyddiaeth rheoleiddir, fel nad oes angen defnyddio pŵer sy'n cael ei ddarparu trwy'r bil hyn.

"Er hyn, efallai nad yw'r un peth yn wir am broffesiynau sydd wedi'u datganoli ond nad ydynt ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i unrhyw reoliad Cymreig presennol, ac nid yw'n glir beth fyddai'r effaith ar broffesiynau hyn.

"Mae'r effaith ar reoleiddwyr o'r gofyniad i gydweithredu â'r ganolfan gymorth yn parhau'n ansicr gan nad oes digon o fanylion yn y Bil, nac mewn unrhyw ganllawiau a ryddhawyd, i ddyddiad, er mwyn gallu mesur yr effaith yn iawn.

"O ran y nifer o broffesiynau addysgu a gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio gan EWC a SCW, gall fod effaith sylweddol yn dibynnu ar sut mae gweinidogion Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau o dan y Bil fel maent wedi drafftio ar hyn o bryd. Er ein bod wedi cael sicrwydd nad yw Llywodraeth y DU yn bwriadu defnyddio'r pwerau cydredol ym meysydd datganoledig heb gytundeb y Llywodraethau Datganoledig perthnasol, nid yw'r ymrwymiad yn ymddangos yn y Bil, ac felly mae'n cynnig cysur dim ond cyhyd â bod Llywodraeth bresennol y DU yn penderfynu cadw ato. Mae'n dal i fod yn destun pryder sylweddol y gellid defnyddio'r pwerau yn y Bil i wrthdroi polisi Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a wneir gan y Senedd mewn maes datganoledig."

11. Ymddengys nad yw'r diwygiadau a wnaed i'r Bil sy'n destun y Memorandwm Atodol hwn yn mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru a nodwyd yn ei Memorandwm gwreiddiol, megis sut y mae'r Bil *"yn crwydro i feysydd sydd wedi'u heithrio, fel arfer, o gytundebau masnach rydd a negodiadau cysylltiedig – e.e. addysg a ariennir gan y wladwriaeth"*. Daeth llythyr y Gweinidog, dyddiedig 4 Hydref, i'r casgliad a ganlyn:

"Mae Llywodraeth Cymru yn bryderus iawn y gellid defnyddio'r Bil hwn i hwyluso masnach bargeinion a allai yn y dyfodol gwmpasu ystod o broffesiynau, gan danseilio rôl ein rheoleiddwyr y gweithlu, y safonau a bennwyd gennym ar gyfer y proffesiynau hyn, a thanseilio gofynion cymhwyster a chofrestru oherwydd yr awydd i sicrhau bargeinion masnach".

12. Roedd ymateb y Gweinidog i'r Pwyllgor yn disgrifio effeithiau posibl trefniadau domestig eraill ar ôl Brexit ar weithredu'r Bil, gan gynnwys system fewnfudo newydd y DU a darpariaethau cydnabyddiaeth broffesiynol a gynhwysir yn Neddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori bod bodloni gofynion system fewnfudo newydd y DU yn "debygol o fod yn ffactor mwy arwyddocaol" na chydabod cymwysterau proffesiynol ar gyfer athrawon a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Cyfeiriodd llythyr y Gweinidog, ar 4 Hydref, at gostau ychwanegol fisas a cheisiadau a allai effeithio ar hwylustod mynediad i athrawon rhyngwladol, ac mai dim ond rhai pynciau addysgu (e.e. ffiseg, mathemateg) sydd ar y Rhestr Prinder Galwedigaethau.

13. Yn ei ohebiaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor ynghylch y Memorandwm Atodol, nid yw'r Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei bryderon polisi fel y nodir yn y Memorandwm gwreiddiol na'i lythyr dyddiedig 4 Hydref, ond mae'n nodi:

"Er fy mod yn croesawu ymgysylltiad Llywodraeth y DU hyd yma o ran yr angen i wneud newidiadau i'r Bil fel y mae, credaf fod angen gwelliannau pellach i fynd i'r afael â'm pryderon mewn perthynas â'r pwerau cydredol yn y Bil ac felly ni allaf argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil."

14. Mae'r Gweinidog hefyd wedi nodi y gallai fod angen rhagor o Femoranda Atodol, ac y bydd yn ysgrifennu at yr Aelodau pe bai hynny'n wir.

Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

15. Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig ar gyfer y Bil yn cydnabod y canlynol

The regulation of professions and therefore the recognition of overseas professionals is a mixture of reserved and devolved competence, dependent on the profession.

16. Mae'r Senedd yn gymwys i ddeddfu mewn perthynas â rheoleiddio proffesiynau oni bai bod rheoleiddio proffesiwn yn fater a gedwir yn ôl neu'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl. Mae rheoleiddio rhai proffesiynau, fel penseiri, archwilwyr, milfeddygon a'r proffesiynau ieched a'r gyfraith, yn cael ei gadw'n ôl yn benodol.

17. Mae'r Memorandwm Atodol yn ymwneud â diwygiadau Llywodraeth y DU y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Tachwedd 2021. Mae cymal 1 wedi'i ddiwygio, a chymalau 14 a 15 wedi'u hychwanegu. Fel y nodwyd yn llythyr y Gweinidog, ar 6 Rhagfyr, mae'r tri chymal yn gwneud darpariaethau y gallai Senedd Cymru ddeddfu drostynt mewn perthynas â meysydd datganoledig, ac sy'n parhau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Cymal 1(4)

18. Mae Cymal 1 yn rhoi pŵer i'r "awdurdod cenedlaethol priodol" (a ddiffinnir yng nghymal 16 y Bil fel yr Ysgrifennydd Gwladol (neu'r Arglwydd Ganghellor), Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru neu Adrannau Gogledd Iwerddon, yn dibynnu a yw proffesiwn rheoleiddiedig yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig). Y pŵer yw gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr penodedig ystyried ac asesu a ddylid trin cymwysterau a enillwyd a phrofiad a gafwyd y tu allan i'r DU fel petaent yn gymhwyster penodedig o'r DU at ddibenion gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan unigolyn hawl i ymarfer proffesiwn rheoleiddiedig.

19. Mae cymal 1(4) yn is-gymal newydd sy'n cael effaith ddeublyg:

- yn gyntaf, mae'n ymwneud â'r pŵer yng nghymal 1(1) i bennu amodau, yn ogystal â'r rhai ar wyneb y Bil yng nghymalau 1(2) ac 1(3), y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i unigolion gael eu trin fel pe bai ganddynt gymhwyster neu brofiad penodedig o'r DU. Mae cymal 1(4)(a) yn datgan nad oes rhaid i amodau o'r fath gael eu cysylltu â chymhwyster neu brofiad o'r DU sydd o dan sylw; ac
- yn ail, mae'n ymwneud â'r amodau sydd ar wyneb y Bil yng nghymalau 1(2) ac 1(3), ac yn datgan, pan fo rheoleiddiwr yn gwneud penderfyniad bod gan berson, neu nad oes gan berson, pa un bynnag y bo, yr un wybodaeth neu brofiad o sylwedd â gofynion cymhwyster neu brofiad o'r DU, dim ond ar sail y cymhwyster neu'r

profiad tramor a gafwyd neu ar unrhyw sail arall y mae'r rheoleiddiwr yn ystyried ei bod yn briodol y gellir gwneud penderfyniad o'r fath.

20. Mae'r Memorandwm Atodol yn datgan bod Llywodraeth Cymru yn parhau i wrthwynebu cymal 1 yn ei gyfanrwydd gan fod Llywodraeth y DU yn gwrthod dileu'r pwerau cydredol a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor yn y cymal hwn i reoleiddio mewn perthynas â Chymru mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Aiff ymlaen i ddweud:

"Mewn ymdrech i fod yn adeiladol, mae swyddogion wedi dweud wrth Lywodraeth y DU ar sawl achlysur y gallwn fod yn barod i argymhell cydsyniad ar gyfer y Bil hwn, gan gynnwys cymal 1, os gwneir gwelliant i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw ddeddfwriaeth mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU wedi bod yn barod i wneud unrhyw welliant o'r fath."

Cymal 14 - Diogelu ymreolaeth rheolydd

21. Mae'r cymal newydd hwn yn darparu fod yn rhaid bodloni'r amodau canlynol cyn i reoliadau gael eu gwneud o dan gymalau 1, 3 neu 4 o'r Bil:

- rhaid i'r rheoliadau beidio â dileu gallu unrhyw reoleiddiwr proffesiwn a reoleiddir i atal unigolion sy'n anaddas i ymarfer y proffesiwn rhag gwneud hynny; a
- ni fydd y rheoliadau'n cael effaith andwyol sylweddol ar unrhyw broffesiwn a reoleiddir o ran gwybodaeth, sgiliau na phrofiad yr unigolion sy'n ei ymarfer.

22. Mae'r Memorandwm Atodol yn datgan bod y cymal hwn wedi'i ychwanegu i roi sicrwydd i reoleiddwyr mai dim ond pan na fyddai gwneud hynny'n cael effaith andwyol ar ymreolaeth reoleiddiol y caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol ddeddfu. Bydd y cymal yn gymwys i Weinidogion Cymru pryd bynnag y byddant yn gwneud rheoliadau o dan gymalau 1, 3 neu 4 o'r Bil. Mae llythyr y Gweinidog, dyddiedig 6 Rhagfyr, yn nodi:

"Er y gall rhai rheoleiddwyr groesawu'r cyfaddawd hwn, nid yw'n mynd mor bell ag atal yr awdurdod cenedlaethol priodol rhag gwneud rheoliadau y mae'r rheoleiddwyr wedi'u gwrthwynebu yn ystod ymgynghoriad o'r fath."

Cymal 15 - Ymgynghori â rheoleiddwyr

23. Mae'r cymal newydd hwn yn darparu, cyn i reoliadau gael eu gwneud o dan gymalau 1, 3 neu 4 o'r Bil, fod yn rhaid ymgynghori ag unrhyw reoleiddiwr y mae'r rheoliadau'n debygol o effeithio arnynt, neu rhaid ymgynghori â rheoleiddiwr os yw'n briodol gwneud hynny fel arall.

24. O ran cymalau 14 a 15, mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio bod y cymalau yr un mor berthnasol i bob un o'r awdurdodau cenedlaethol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru lle y bo'n briodol, ond nad ydynt yn atal yr Ysgrifennydd Gwladol na'r Arglwydd Ganghellor rhag gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig sy'n groes i nodau polisi Gweinidogion Cymru:

"Gan fod Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu defnyddio pwerau cydredol yn y Bil, nid yw'n argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad i gymalau 1, 14 neu 15 o'r Bil."

Cymal 16(5) - Y wybodaeth ddiweddaraf am alinio cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol

25. Mae'r Memorandwm Atodol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bryderon blaenorol sy'n ymwneud â chymhwysedd gweithredol Llywodraeth Cymru fel "awdurdod cenedlaethol priodol", y mae Llywodraeth y DU wedi mynd i'r afael ag ef mewn perthynas â'r hyn sydd bellach yn gymal 16(5) o'r Bil (cymal 14(5) gynt)). Mae paragraff 10 o'r Memorandwm Atodol yn nodi:

"...Mae Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn glir mai effaith cymal 16(5) yw ymestyn cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru mor bell â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan gynnwys y gallu i wneud rheoliadau sy'n addasu swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl gyda chydysyniad Llywodraeth y DU, ond dim pellach. Rydym yn derbyn y safbwynt hwn, a hefyd yn derbyn bod cymal 16(2) a chymal 16(5) gyda'i gilydd yn cael yr effaith o alinio cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol fel hyn."

26. Fodd bynnag, ni ddarperir unrhyw wybodaeth bellach am natur y sicrwydd a roddir, ac ni chânt eu hadlewyrchu ar wyneb y Bil.

Goblygiadau ariannol

27. Roedd adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm gwreiddiol yn nodi pryderon Llywodraeth Cymru y bydd y Bil yn gosod baich gweinyddol ac ariannol ychwanegol ar reoleiddwyr datganoledig Cymru a fydd yn effeithio ar ystyriaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru:

28. Mae'r Memorandwm yn datgan: *"Mae Llywodraeth y DU wedi nodi'n benodol bod yr effeithiau ariannol yn fach iawn ac nad yw'n fodlon talu unrhyw gostau sy'n deillio o gynnwys y*

Bil hwn." Aeth ymlaen i ddweud: "Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amcangyfrif y bydd cyfanswm y gost ledled y DU tua £90,000 mewn costau trosiannol a allai fod yn gymwys i bob un o'r rheoleiddwyr yr effeithir arnynt." Roedd y Memorandwm gwreiddiol yn datgan hefyd, "oherwydd y nifer bach o ymgeiswyr tramor sy'n gwneud cais i weithio yng Nghymru, gallai ein rheoleiddwyr datganoledig gael eu gorfodi gan y Bil hwn i roi prosesau beichus ar waith heb unrhyw fanteision uniongyrchol." Gallai'r ddau fater hyn effeithio, yn y pen draw, ar gostau i Lywodraeth Cymru."

29. Ymddengys bod pryderon am y goblygiadau ariannol posibl yn parhau'n gryf, gan gynnwys costau sy'n codi'n "anuniongyrchol" o'r Bil. Mae paragraffau 21 i 23 o'r Memorandwm Atodol yn datgan:

"21. Y sefyllfa o hyd yw y gallai cymalau 1, 14 a 15 fod â goblygiadau ariannol i reoleiddwyr os a phan y caiff y darpariaethau yn y Bil eu deddfu gan reoliadau.

"22. Mae goblygiadau ariannol yn deillio'n anuniongyrchol o'r Bil hwn. Os yw'r darpariaethau yn y Bil yn golygu bod yn rhaid i reoleiddwyr ymrwymo gwariant ychwanegol i gydymffurfio, Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y costau ar gyfer y gwariant hwnnw yn y pen draw drwy'r trefniadau ariannu sydd ar waith gyda'r rheoleiddwyr datganoledig." Nid yw'r union gostau yn hysbys ar hyn o bryd.

"23. Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu cynllun Grant Trefniadau Cydnabod peilot ar gyfer cyrff rheoleiddio a phroffesiynol y DU ar gyfer proffesiynau o fewn y sector gwasanaethau proffesiynol a busnes i gefnogi costau cael cymorth technegol wrth negodi neu baratoi ar gyfer trefniant cydnabod. Ni fydd y cynllun hwn ond yn talu am gostau penodol a ysgwyddir hyd at 31 Mawrth 2022. Nid oes unrhyw arwydd y bydd Llywodraeth y DU yn ymestyn y cynllun hwn, nac yn darparu unrhyw gymorth ariannol arall i bob corff rheoleiddio i dalu am gostau disgwylidiedig gweithredu'r Bil."

Darpariaethau ar gyfer Cymru mewn Bil y DU

30. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyn hyn nad yw wedi'i hargyhoeddi bod y mwyafrif o'r mesurau yn y Bil hwn yn angenrheidiol. Mae wedi dweud ei bod "yn cefnogi egwyddor cydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd a phrofiad a gafwyd dramor", ond "mae o'r farn bod y pwerau cydredol a geir yn y Bil yn tanseilio pwerau hirsefydlog y Senedd a Gweinidogion Cymru i reoleiddio mewn perthynas â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig." Fel y nodwyd ym mharagraff 9 uchod, mae rheoleiddwyr wedi mynegi pryderon am yr agwedd hon ar y Bil.

Barn y Pwyllgor

- 31.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y materion a gynhwysir yng Nghymal 1(4), Cymal 14 a Chymal 15 o'r Bil yn dod o fewn unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau hyn.
- 32.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y mae Llywodraeth y DU wedi egluro ei safbwynt mewn perthynas â chymal 16(5) o'r Bil (Paragraffau 25-26 uchod) ac yn gofyn am ddarparu copïau o unrhyw ohebiaeth mewn perthynas â'r pwynt hwn.
- 33.** Mae'r Pwyllgor yn nodi o'r Memorandwm Atodol a gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg bod pryderon yn parhau o ran pwerau, materion polisi a golbygiadau ariannol, er gwaethaf ymgysylltiad rhwng y ddwy lywodraeth a diwygiadau i'r Bil. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi disgwyliad y Gweinidog y gallai Memoranda Atodol pellach ddilyn, ac mae'n croesawu ei fwriad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl Aelodau yngylch datblygiadau. Yn y cyfamser, fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad pellach gan y Gweinidog ynghylch y pryderon polisi fel y'u nodir yn y Memorandwm gwreiddiol ac yn llythyr y Gweinidog, ar 4 Hydref.
- 34.** Heb y wybodaeth honno, nid yw'r Pwyllgor mewn sefyllfa i argymhell a ddylai'r Senedd dderbyn ynteu wrthod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm Atodol hwn.